

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 29.04.2016

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: (*Rhowch y Teitl*)

DIRPRWYO GWAITH I DRYDYDD PARTI: Y fframwaith llywodraethu gofynnol

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad (*Rhowch y Dyddiad*)
01.04.2018

I'w weithredu gan:

(*Rhestrwch y rheini ddylai weithredu*)

Cadeiryddion

Prif Weithredwyr

Ysgrifenyddion Byrddau

Cyfarwyddwyr Meddygol

Cyfarwyddwyr Nyrsio

Cyfarwyddwyr Therapi a Gwyddoniaeth
lechyd

**Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru (neu
er gwybodaeth):**

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG
Cymru

Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru

Arweinwyr Polisi a Gweithwyr Proffesiynol

Tîm Gweithrediadau'r Grŵp Iechyd a

Gwasanaethau Cymdeithasol

Tîm Cyfathrebu'r Grŵp Iechyd a

Gwasanaethau Cymdeithasol

Tîm Digidol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

Angen gweithredu erbyn:

Anfonwr:

Jean White – Prif Swyddog Nyrsio

Enw(au) Cyswilt GIGC Llywodraeth Cymru :

Jean White: Prif Swyddog Nyrsio - Y Gyfarwyddiaeth Nyrsio - OCNOMailbox@wales.gsi.gov.uk

Dogfennau amgaeedig:

Un: *Dirprwyo Gwaith i Drydydd Parti - Y fframwaith llywodraethu gofynnol*

1. Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi am ddogfen sydd wedi'i chyhoeddi, sef 'Dirprwyo Gwaith i Drydydd Parti - Y fframwaith llywodraethu gofynnol'
2. Mae'r ddogfen yn gosod canllawiau ar gyfer dirprwyo tasgau iechyd gan weithwyr proffesiynol y GIG i weithwyr cymorth iechyd a gofal cymdeithasol nad ydynt yn rhan o'r GIG.
3. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod gofal yn canolbwyntio ar y dinesydd, a galluogi sefydliadau i gydweithio i ddarparu gofal mewn ffordd integredig a threfnus ar sail egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, er mwyn diwallu anghenion penodol yr unigolyn.
4. Mae'r fframwaith yn dwyn ynghyd y canllawiau presennol ac arfer da, ac yn rhoi arweiniad ar y fframwaith llywodraethu gofynnol i hwyluso'r gwaith o ddirprwyo ar draws gweithgareddau iechyd a gofal cymdeithasol.
5. Bydd gofyn i bob bwrdd iechyd sicrhau bod y fframweithiau llywodraethu priodol yn eu lle i gefnogi trefniadau ar gyfer dirprwyo tasgau penodol yn ymwneud ag iechyd i weithwyr cymorth sydd heb eu cyflogi gan y GIG neu sydd dan gcontract, yn ôl y gofyn, er mwyn diwallu anghenion penodol yr unigolyn.
6. Bydd y fframwaith yn cael ei gyhoeddi yn e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/working-in-partnership>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dirprwyo Gwaith i Drydydd Parti

Y fframwaith llywodraethu gofynnol

Dirprwyo Gwaith i Drydydd Parti

Y fframwaith llywodraethu gofynnol

Cynnwys	Tudalen
Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cyflwyno	5
Penderfynu Dirprwyo	5
Sut i ddefnyddio'r Fframwaith hwn	7
Y Fframwaith	8
1. Dull Safonedig Cenedlaethol	8
2. Byrddau Iechyd	9
3. Awdurdodau Lleol	11
4. Cytundebau Cydbartneriaeth	12
5. Darparwyr Trydydd Sector	14
Enghreifftiau o'r llefydd y sicrhawyd gofal sy'n canolbwyntio ar y dinesydd	16
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys	16
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin	17
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	18
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	19
Ychwanegiad 1 Enghraifft o ddogfennau a gwblhawyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	21
Atodiad 1 Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad i ddirprwyo	21
Atodiad 2 Asesiad Dewis, Rheolaeth a Galluogi Risg	24
Atodiad 3 Diagram Llif Uwchgyfeirio Wrth Gefn	26
Atodiad 4 Y Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer dirprwyo darparu Peristeen i weithwyr gofal nad ydynt yn rhan o'r GIG	28
Atodiad 5 Rheoli Ffurflen Asesu Risg Iechyd a Diogelwch 1B	31
Atodiad 6 Y weithdrefn ar gyfer rheoli dyfrhau'r rectwm	33
Atodiad 7 Gweithdrefn wedi'i phersonoli ar gyfer rheoli dyfrhau'r rectwm	36

Dirprwyo Gwaith i Drydydd Parti

Y fframwaith llywodraethu gofynnol

Rhagair

Yn llawer rhy aml, mae'r defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru yn sôn am y bobl niferus sy'n ymweld â'u cartrefi i ddarparu gofal. Gall y ddarpariaeth ddatgymalog, ddi-gyswllt barhaus hon o ofal leihau ansawdd bywyd a phrofiad bywyd y sawl sy'n derbyn y gofal. Prin yw'r ddealltwriaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau ar hyn o bryd o sut y gellir dirprwyo'r ddarpariaeth o ofal yn ddiogel i'r unigolyn mwyaf priodol, gan gynnal llywodraethu da i gefnogi a bodloni dymuniadau'r unigolyn sy'n derbyn y gofal hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hwyluso dull sy'n seiliedig ar werth o ymdrin ag iechyd a gofal, yn seiliedig ar angen ac sy'n cynnwys llais y dinesydd mewn penderfyniadau am ofal iechyd a gwasanaethau ac i ddarparu gwasanaethau integredig gwell sy'n canolbwyntio mwy ar ddinasyddion. Fodd bynnag, gall fod yn anodd ei reoli gan fod gweithio ar draws ffiniau sefydliadol yn gymhleth a gall olygu gorfod goresgyn heriau a risgiau. Gall cymhlethdod ac amwysedd arwain at ddryswch ac atebolrwydd gwan a gall hyn arwain wedyn ar ostyngiad o ran y gallu i ymateb, ansawdd a chynnydd i gyfanswm y gost.

Gan fod natur y 'gofal 24 awr' sy'n ofynnol erbyn hyn yn newid, mae'n rhaid ystyried y gweithlu sydd ei angen i sicrhau bod gennym ni dimau staff â sgiliau, hyder a chymhwysedd priodol sy'n gallu rhoi modelau a ffyrdd newydd o weithio ar waith. Bydd hyn yn ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n bwysig bod dull cyson o ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol nad yw'n gwanhau eu swyddogaeth graidd ond sy'n diwallu anghenion dinasyddion unigol a bod eglurder o ran natur y gofal a'r cymorth y gellir eu cynnig a'r fframwaith llywodraethu i gefnogi hyn.

Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y llywodraethu i gefnogi gofal integredig i bobl hŷn, yn enwedig pobl eiddil oedrannus neu'r unigolion hynny ag anghenion cymhleth. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan ddinasyddion unigol lais a rheolaeth dros eu gofal a'u cymorth. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar gynnal lles trwy ymatebion wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn. Mae dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn nodi'r hyn sy'n bwysig i unigolyn o'i safbwynt ef neu hi yn hanfodol i hyn, gan adeiladu ar y cryfderau sydd gan bobl, a'u rhwydweithiau a'u cysylltiadau cymunedol, er mwyn hybu annibyniaeth. Mae'n golygu cydnabod y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hanghenion gofal yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, ac i lawer o siaradwyr Cymraeg, mae'n rhaid ystyried y gallu i ddefnyddio eu hiaith eu hunain fel elfen graidd o ofal, nid elfen ychwanegol ddewisol. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyd-ddylunio, eu cydgysylltu a'u darparu'n effeithiol, er mwyn sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl a'u gofalwyr.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu hwn yn tynnu'r arfer gorau cyfredol a chanllawiau a deddfwriaeth Cymru ynghyd i gefnogi gweithio integredig diogel a chynaliadwy ar draws sectorau a'r llywodraethu y mae pob randdeiliad ei angen i fod ar waith i gynnal dull integredig o ddirprwyo tasgau'n ddoeth i fodloni dymuniadau unigolion sy'n derbyn gofal.

Dirprwyo Gwaith i Drydydd Parti

Y fframwaith llywodraethu gofynnol

Crynodeb Gweithredol

Rydym am weld Cymru fod yn wlad wych i bobl fyw a heneiddio ynddi. Dylai pobl allu byw'r bywydau y maent eu heisiau a chael mynediad at ofal o ansawdd uchel i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yr un fath p'un a ydynt yn eu cartref eu hunain neu mewn cartref gofal.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i unigolion, teuluoedd, cymunedau, ieched, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector a'r sector annibynnol i gyd weithio gyda'i gilydd.

Ai dyma'r hyn yr ydym ni ei eisiau yng Nghymru?

Fel rheol roedd John yn heini ac yn iach i rywun 87 mlwydd oed. Roedd yn byw ar ben ei hun ers i'w wraig farw ddwy flynedd yn ôl. Roedd plant John wedi symud i ffwrdd i weithio ac nid oedd ganddo unrhyw berthnasau agos yn lleol. Roedd wedi sylwi ei fod wedi dechrau mynd yn anghofus a thrafododd hyn gyda'i feddyg teulu. Ar ôl ymgynghori â meddyg yn yr ysbyty lleol, rhoddwyd meddyginiaeth ar bresgripsiwn i John a fyddai'n ei helpu gyda'i gof. Roedd John yn weithgar yn y gymuned leol yn gwirfoddoli ac roedd wrth ei fodd yn byw yn y cartref yr oedd ef a'i wraig wedi ei sefydlu a byw ynddo ers dros 40 mlynedd. Yn anffodus, roedd John yn anghofio cymryd ei feddyginiaeth feunyddiol yn rheolaidd ac adolygwyd ei feddyginiaeth mewn trafodaeth â'r fferyllydd lleol. Nid oedd unrhyw ffyrdd amgen o dderbyn y feddyginiaeth a phrofodd John y defnydd o dechnoleg gynorthwyol i'w helpu i gymryd ei feddyginiaeth yn unol â'i bresgripsiwn. Yn anffodus, ni weithiodd hyn yn dda iddo a'r cymorth gorau iddo gymryd ei feddyginiaeth oedd cael rhywun yno i'w atgoffa i'w gymryd. Llwyddodd John i barhau i fod yn rhan o'r gymuned, ond roedd yn mynd yn fwyfwy eiddil gydag oedran ac nid oedd yn gofalu am ei hun gystal. Roedd wedi dechrau cael cymorth gofal cartref beunyddiol i'w alluogi i aros yn ei gartref. Fodd bynnag, nid oedd y cymorth gofal cartref yn digwydd pan gafodd ei bresgripsiwn ac ni ofynnwyd iddynt atgoffa John am ei feddyginiaeth fel rhan o'r pecyn gofal. Dechreuodd John deimlo nad oedd yn gallu ymdopi gartref a symudodd i gartref preswyl i ffwrdd o'i gymuned. Daeth ei waith gwirfoddol i ben ac, er ei fod yn cymryd meddyginiaeth yn rheolaidd, gwaethygodd ei gof yn weddol gyflym gan olygu bod rhaid ei atgoffa am bob gweithgaredd personol ychydig wythnosau'n unig ar ôl ei dderbyn.

Mae *Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014* yn rhoi llais cryf a rheolaeth wirioneddol dros y gwasanaethau gofal cymdeithasol y maent yn eu defnyddio. Bydd yn gyrru datblygiad modelau newydd o wasanaeth i gynnal a gwella ieched a lles pobl. Bydd pwyslais cryfach hefyd ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fwy o waith partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau.

Mae'r fframwaith llywodraethu hwn yn tynnu'r arfer gorau cyfredol a chanllawiau a deddfwriaeth Cymru ynghyd i gefnogi gweithio integredig diogel a chynaliadwy ar draws sectorau a'r llywodraethu y mae pob rhanddeiliad ei angen i fod ar waith i gynnal dull integredig o ddirprwyo tasgau'n ddoeth i fodloni dymuniadau unigolion sy'n derbyn gofal.

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella canlyniadau trwy hwyluso gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n well ac sy'n canolbwyntio mwy ar y dinesydd. Fodd bynnag, gall fod yn anodd eu rheoli gan fod gweithio ar draws ffiniau sefydliadol yn gymhleth a gall olygu'r angen i oresgyn heriau a risgiau. Gall cymhlethdod ac amwysedd arwain at ddryswch ac atebolrwydd gwan. Mae'r fframwaith llywodraethu hwn wedi'i ddylunio i helpu i asesu a oes trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer dirprwyo gofal i weithwyr proffesiynol cofrestredig cyflogedig GIG Cymru i weithwyr cymorth trydydd parti nad ydynt yn cael eu cyflogi gan GIG Cymru neu wedi'u contractio / eu comisiynu'n uniongyrchol ganddo.

Mae'r Fframwaith wedi'i seilio'n drwm ar y fframwaith llywodraethu i ddatblygu Rôl y Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion (Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a Chyngor Gofal Cymru 2012) a Chanllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Dirprwyo (Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd 2010)

Nid yw'r fframwaith llywodraethu hwn yn gofyn am gyd-benodiadau i swyddi gweithwyr cymorth iechyd a gofal cymdeithasol i hwyluso dirprwyo gwaith.

Penderfynu Dirprwyo

Dirprwyo yw'r broses y mae'r dirprwywr yn ei dilyn i neilltuo triniaeth neu ofal clinigol neu anghlinigol i unigolyn cymwys (y sawl y dirprwyir iddo). Bydd y dirprwywr yn parhau i fod yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol gofal yr unigolyn ac mae'n atebol am ei benderfyniad i ddirprwyo. Nid yw'r dirprwywr yn atebol am y penderfyniadau a wneir a'r camau a gymerir gan y sawl y dirprwyir iddo wedi hynny.

Mae cyd-destun y berthynas sy'n bodoli rhwng y sawl sy'n dirprwyo a'r sawl y dirprwyir rhyw agwedd ar ymarfer iddo yn hollbwysig i ddirprwyo gwaith. Nodwyd nifer o ffactorau sy'n arwyddocaol i'r rhai sy'n dirprwyo tasgau wrth benderfynu trosglwyddo tasg i weithiwr cymorth. Dylai'r sawl sy'n gyfrifol am y penderfyniad i ddirprwyo ddilyn y broses asesu fel yr amlinellir yng Nghanllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Dirprwyo (Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd 2010). Cam 1 y broses yw asesu'r dasg i'w dirprwyo a'r unigolyn sy'n cyflawni'r dasg. Cam 2 y broses yw gweithredu ac adolygu pa mor dda y mae'r sawl y dirprwyir iddo'n cyflawni'r dasg.

Dylai'r penderfyniad i ddirprwyo tasg gael ei wneud ar y cyd â'r unigolyn i ddiwallu ei anghenion yn y ffordd orau a dylid ei gofnodi yn rhan o'r gwaith asesu, cynllunio ac adolygu integredig o anghenion yr unigolyn. Dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw'r Trefniadau Asesu, Cynllunio ac Adolygu Integredig ar gyfer Pobl Hŷn (Llywodraeth Cymru 2013). Mae'r rhain yn nodi'r hyn sy'n bwysig i unigolyn o'i safbwynt ef neu hi, gan adeiladu ar y cryfderau sydd gan bobl, a'u rhwydweithiau a'u cysylltiadau cymunedol, er mwyn hybu annibyniaeth. Mae'n golygu bodloni'r safonau iaith Gymraeg trwy gydnabod y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hanghenion gofal yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. I lawer o siaradwyr Gymraeg, mae'n rhaid ystyried y gallu i ddefnyddio eu hiaith eu hunain fel elfen graidd o ofal, nid elfen ychwanegol ddewisol. Mae asesu, cynllunio ac adolygu integredig yn hyrwyddo dewis, rheolaeth, byw annibynnol, ymreolaeth a chadw'n ddiogel. Dylai'r gweithiwr proffesiynol cofrestredig gofnodi o gwmpas y penderfyniad i ddirprwyo tasg benodol:

- Asesiad o allu'r unigolyn i roi caniatâd i ddirprwyo tasgau penodol i gynorthwyo ei iechyd/lles
- Pwy fydd yn diwallu anghenion yr unigolyn orau?
- Cydsyniad
- Asesiad risg

- A oes angen i drydydd parti gyflawni'r dasg?
 - Y defnydd o gontractau
 - Cost ac ariannu / taliadau uniongyrchol

Ceir enghreifftiau o'r dogfennau a ddefnyddiwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn Ychwanegiad 1. Ychwanegiad 1 yw Sefyllfa, Cefndir, Asesiad ac Argymhelliad y penderfyniad i ddirprwyo.

Pan nodir nad yw'r gallu gan yr unigolyn i benderfynu y gall y gweithiwr cymorth gyflawni'r dasg benodol, yna'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n dirprwyo fydd yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir trafodaeth ar gyfer penderfyniad 'Budd Gorau'. Dylid cynnal y drafodaeth gyda theulu (a/neu yr unigolion hynny yr ystyrir eu bod yn gyfrifol am ofal) yr unigolyn a bod penderfyniad yn cael ei wneud sydd er lles yr unigolyn. Mae'n rhaid cofnodi'r penderfyniad budd gorau yn llawn yn y dogfennau asesu, cynllunio ac adolygu integredig amlddisgyblaeth. Mae'n rhaid llenwi Ffurflen Ganiatâd Cymru Gyfan cyn dirprwyo'r dasg ac mae'n rhaid i'r dirprwywr sicrhau bod hyn yn gwbl amlwg yn nodiadau gofal iechyd yr unigolyn. Gallai unigolion y gellid ystyried bod ganddynt gyfrifoldeb am ofal unigolyn gynnwys:

Perthynas Agosaf
Rheolwr asiantaeth neu gartref gofal
Gweithiwr Cymdeithasol neu
Feddyg Teulu

Mae'r sawl a ddylai gyflawni'r dasg yn dibynnu ar nifer o ffactorau:

- Gofynion yr unigolyn a'i ddewis ei hun
- Sgiliau, cymhwysedd, addasrwydd a phrofiad y gweithiwr cymorth
- Natur y dasg o dan yr amgylchiadau penodol; neu
- A oes angen newid neu gyflwyno technoleg gynorthwyol i helpu i ddiwallu'r angen.

Ni ddylai'r broses asesu risg ddisodli barn a phrofiad proffesiynol a dylai gael ei hysbysu gan wybodaeth, dawn ac arbenigedd y tîm amlddisgyblaeth sy'n cynnal yr asesiad integredig. Mae'n broses sy'n cynnwys meddwl am y peryglon a'r risgiau y gallai unigolyn eu hwynebu, cofnodi'r rhain ac ystyried mesurau lliniaru cymesur a phwy fydd â chyfrifoldeb. Yn yr un modd, ni ddylid ei defnyddio fel esgus i beidio â gwneud pethau oni bai fod y peryglon tebygol yn fwy na'r manteision tebygol. Mae'n rhaid i asesiad risg fod yn rhan o'r broses asesiad integredig amlddisgyblaeth (gweler atodiad 5).

Wrth ddirprwyo i weithiwr cymorth a nodwyd gan yr unigolyn, dylai Polisi Galluogi Dewis, Rheolaeth a Risg fod ar waith a dylid defnyddio Dull Galluogi Risg i amlygu risgiau ac i sefydlu cynllun wrth gefn y cytunir arno os bydd y trefniadau gofal yn methu (gweler atodiad 2).

Dylai cyflogwr y gweithiwr cymorth, boed yn asiantaeth, yn gartref gofal, yn ddarparwr trydydd sector neu'n unigolyn, fod yn ymwybodol o'r hyfforddiant, yr asesiad a'r oruchwyliaeth / monitro parhaus o'r tasg(au) a ddirprwyir, a chytuno arnynt.

Gweithiwr iechyd proffesiynol penodol yw'r dirprwywr y mae'n ofynnol iddo ac mae'r gallu ganddo, trwy bolisi lleol neu drwy ei ddisgrifiad swydd, i ddirprwyo tasgau i drydydd parti. Bydd y dirprwywr yn parhau i fod yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol gofal yr unigolyn ac i sicrhau *bod yn agored, tryloywder a didwylledd* am y gofal hwnnw. Mae'n atebol am ei benderfyniad i ddirprwyo, yn cymryd camau priodol i sicrhau dirprwyo gwaith yn ddiogel (hyfforddi ac asesu'r sawl y dirprwyir iddo) ac i gynnal neu sicrhau goruchwyliaeth / monitro parhaus priodol o'r dasg/tasgau a ddirprwyir. Dylai'r dirprwywr gadw cofrestr o'r hyn y mae wedi ei ddirprwyo, pwy sy'n cyflawni'r dasg a ddirprwyir, y cymhwysedd y'i haseswyd yn ei

erbyn a'i weithgaredd goruchwyllo / monitro (gall hyn fod trwy gofnod cleifion electronig System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) at ddibenion archwilio mewnol. Nid yw'r dirprwywr yn atebol am y penderfyniadau a wneir a'r camau a gymerir gan y sawl y dirprwyir iddo wedi hynny.

Bod yn agored: galluogi pryderon i gael eu codi a'u datgelu'n rhydd heb ofn ac i gwestiynau gael eu hateb.

Tryloywder: galluogi gwybodaeth wir am berfformiad a chanlyniadau i gael eu rhannu gyda'r unigolyn, staff a'r cyhoedd.

Didwylledd: sicrhau bod cleifion sy'n cael eu niweidio gan wasanaethau gofal iechyd (a'r tasgau iechyd hynny a ddirprwyir) yn cael eu hysbysu am y ffaith ac y cynigir camau unioni priodol, p'un a oes cwyn wedi ei gwneud neu gwestiwn wedi ei ofyn amdano.

Sut i ddefnyddio'r Fframwaith hwn

Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar y canllawiau a'r deunyddiau ategol sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn manteisio'n benodol ar y canllawiau a fydd yn cefnogi dirprwyo gwaith yn ddiogel a llwyddiannus. Mae'r Fframwaith wedi'i gynllunio i gael ei ddefnyddio'n bennaf gan reolwyr sy'n datblygu gweithio integredig ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol, fel rhestr wirio hunanasesu. Fe'i rhennir yn 5 maes:

1. Dull Safonedig Cenedlaethol
2. Byrddau Iechyd
3. Awdurdodau Lleol
4. Cytundebau Cydbartneriaeth
5. Darparwyr Trydydd Parti

Mae pob maes yn cynnwys elfennau y mae angen iddynt fod ar waith a chysylltiadau a chyfeiriadau at ddulliau ac adnoddau ategol.

Y Fframwaith

1. Dull Safonedig Cenedlaethol

Awgrymiadau i'w hystyried

- Mae'n bwysig bod dull cyson o ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol nad yw'n gwanhau ei swyddogaeth graidd ond sy'n diwallu anghenion dinasyddion unigol a bod eglurder o ran natur y gofal a'r cymorth y gellir eu cynnig a'r fframwaith llywodraethu i gefnogi hyn.
- Ceir ystorfa genedlaethol o ganllawiau arfer gorau / cymwyseddau sy'n rhwydd i Fyrddau Iechyd, Staff Awdurdod Lleol a Darparwyr Trydydd Parti gael mynediad ati.
(e-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>)

Dulliau ac Adnoddau

Cyngor Gofal Cymru, Cyngor Sgiliau Sector Cymru, Sgiliau Iechyd

- Cymwyseddau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol
 - Er enghraifft:
 - Rheolaeth reolaidd o hosanwaith cywasgu ar gyfer yr unigolyn sefydlog â lymffoedema
 - Rheolaeth reolaidd o hosanwaith cywasgu gwrth-embolig
 - Meddyginiaeth gan weithwyr cymorth
 - Fframwaith Cymhwysedd i gefnogi oedolion y mae angen eu bwydo gyda thiwb yn y cartref trwy diwb bwydo gastronomi
 - Uned Agored Cymru : Bwydo gyda Thiwb yn y Cartref mewn Lleoliadau Cymunedol
<http://www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Uned/CDJ392>

2. Byrddau Iechyd

Awgrymiadau i'w hystyried

- Mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig yn gweithio'n unol â disgrifiad swydd a chymwyseddau sy'n ofynnol gan y gwasanaeth ac fe'i cefnogir trwy oruchwyliaeth glinigol, gwerthuso, datblygiad personol a chynlluniau hyfforddi.
- Mae disgrifiad swydd y gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig yn nodi prif elfennau'r swydd ac yn cynnwys dirprwyo tasgau i staff cymorth a reolir yn uniongyrchol ac sydd wedi'u contractio gan faes iechyd ac i staff cymorth trydydd parti sy'n cefnogi cynllun gofal asesu, cynllunio ac adolygu integredig ar gyfer unigolyn.
- Caiff tasgau sy'n addas i'w dirprwyo eu nodi a'u cytuno yn rhan o'r asesiad integredig a chynllun gofal. Gweler Atodiad 1 y Fframwaith Llywodraethu i Ddatblygu Rôl y Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion 2012 am enghraifft o ddull ar gyfer nodi'r tasgau sy'n addas / nad ydynt yn addas i'w dirprwyo.
- Mae enghraifft o ddogfennau arfer da wrth ddirprwyo gofal cymhleth i ddirprwyo'r broses o roi meddyginiaeth gan ddefnyddio techneg arbenigol, a gyflawnwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn Ychwanegiad 1

Dulliau ac Adnoddau

'Welsh Risk Pool Services All Wales Policy on insurance, NHS Indemnity and related risk management for potential losses and special payments' <http://howis.wales.nhs.uk/sites3/Documents/287/All%20Wales%20Policy%20on%20NHS%20Indemnity%20and%20Insurance%20-%20Final%20-%20160915.pdf>

'Welsh Risk Pool Services, Technical note 28' <http://howis.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=287&id=334452>

'Welsh Risk Pool Services, Technical note 29' <http://howis.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=287&id=334453>

'Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Y Cod (2015)' <https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/nmc-code-welsh.pdf>

'Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Safonau ar gyfer Rheoli Meddyginiaethau (2010)' <http://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/nmc-standards-for-medicines-management.pdf>

'Health Care Professions Council, Standards of Conduct, Performance and Ethics (2012)' <http://www.hpc-uk.org/aboutregistration/standards/standardsofconductperformanceandethics/>

'Code of Conduct for Healthcare Support Workers in Wales' www.wales.nhs.uk/siteplus/829/page/4927

'All Wales Guidelines for Delegation (2010)' www.wales.nhs.uk/siteplus/829/opendoc/162750

'Fframwaith Llywodraethu i Ddatblygu Rôl y Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion (2012)'

[http://www.weds.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1076/Fframwaith%20Llywodraethu%20ar%20gyfer%20datblygu%20Rolau%20Gweithwyr%20Cymorth%20lechyd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20mewn%20Gwasanaethau%20Oedolion%20%20\[1\].pdf](http://www.weds.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1076/Fframwaith%20Llywodraethu%20ar%20gyfer%20datblygu%20Rolau%20Gweithwyr%20Cymorth%20lechyd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20mewn%20Gwasanaethau%20Oedolion%20%20[1].pdf)

'Trefniadau Asesu, Cynllunio ac Adolygu Integredig ar gyfer Pobl Hŷn (2013)' <http://gov.wales/docs/dhss/publications/131217reportcy.pdf>

'Gweithio i Wella fersiwn 3 (2013)' <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/932/Healthcare%20Quality%20-%20Guidance%20-%20Dealing%20with%20concerns%20about%20the%20NHS%20-%20Version%203%20-%20CLEAN%20VERSION%20%20-%2020140122.pdf>

'All Wales Guidance for Health Boards / Trusts in Respect of Medicines and Health Care Support Workers (2015)' <http://www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/All%20Wales%20Guidance%20for%20Health%20Boards%20and%20Trusts%20in%20Respect%20of%20Medicines%20and%20HCSWs.pdf>

3. Awdurdodau Lleol

Awgrymiadau i'w hystyried

- Bwriadau comisiynu a chytundebau cytundebol sy'n cefnogi dirprwyo trydydd parti gan weithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig y GIG.
- Systemau a phrosesau monitro contractau integredig ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd

Dulliau ac Adnoddau

'All Wales Guidelines for Delegation (2010)'

www.wales.nhs.uk/sitesplus/829/opensdoc/162750

'Fframwaith Llywodraethu i Ddatblygu Rôl y Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion (2012)'

[http://www.weds.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1076/Fframwaith%20Llywodraethu%20ar%20gyfer%20datblygu%20Rolau%20Gweithwyr%20Cymorth%20lechydd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20mewn%20Gwasanaethau%20Oedolion%20%20\[1\].pdf](http://www.weds.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1076/Fframwaith%20Llywodraethu%20ar%20gyfer%20datblygu%20Rolau%20Gweithwyr%20Cymorth%20lechydd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20mewn%20Gwasanaethau%20Oedolion%20%20[1].pdf)

'SCIE Guide 54, Commissioning home care for older people (2014)' <http://www.scie.org.uk/publications/guides/guide54/files/guide54.pdf>

'All Wales Guidance for Health Boards / Trusts in Respect of Medicines and Health Care Support Workers (2015)'

<http://www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/All%20Wales%20Guidance%20for%20Health%20Boards%20and%20Trusts%20in%20Respect%20of%20Medicines%20and%20HCSWs.pdf>

4. Cytundebau Cyd-bartneriaeth rhwng Byrddau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Awgrymiadau i'w hystyried

- Bydd angen i bartneriaid sicrhau trefniadau cytundebol gyda thrydydd partion fel darparwyr gofal cartref sy'n cydnabod y gofynion i weithio'n unol â'r fframwaith llywodraethu hwn neu dylent fod â Pholisi / Cytundeb Dirprwyo cydbartneriaeth ar waith
 - Cytundeb i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig i ddirprwyo tasgau yw hwn.
 - Wedi'i ategu gan Bolisi Galluogi Dewis, Rheolaeth a Risg
- Mae partneriaid yn cynnal asesiad ar y cyd o anghenion iechyd a lles ar gyfer cymorth gofal a gwasanaethau ataliol (Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).
- Dylai partneriaid benderfynu a chytuno ar ddull cyffredin a chyson o reoli a chadw cofnodion. Pan gaiff gwybodaeth defnyddwyr gwasanaeth ei rhannu'n briodol, bydd y trefniadau'n cael eu penderfynu gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.
- Dylai partneriaid benderfynu ar gytundeb Adran 33 a chytuno arno er mwyn cefnogi dirprwyo gwaith lle ystyrir bod hyn yn fwy na 'chysylltiedig neu atodol' i wneud rhywbeth arall y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud i ddiwallu anghenion unigolyn. (Adran 47 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)
 - yn yr achos hwn gellid ystyried 'cysylltiedig neu atodol' wrth fynd i gostau ychwanegol yn hytrach na mewn perthynas â dirprwyo unrhyw dasg benodol.

Dulliau ac Adnoddau

'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014' http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

‘Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006’ <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/42/contents>

‘Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005’

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/224660/Mental_Capacity_Act_code_of_practice.pdf

'All Wales Guidelines for Delegation (2010)'

www.wales.nhs.uk/sitesplus/829/opendoc/162750

'Fframwaith Llywodraethu i Ddatblygu Rôl y Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion (2012)'

[http://www.weds.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1076/Fframwaith%20Llywodraethu%20ar%20gyfer%20datblygu%20Rolau%20Gweithwyr%20Cymorth%20lechyd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20mewn%20Gwasanaethau%20Oedolion%20%20\[1\].pdf](http://www.weds.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1076/Fframwaith%20Llywodraethu%20ar%20gyfer%20datblygu%20Rolau%20Gweithwyr%20Cymorth%20lechyd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20mewn%20Gwasanaethau%20Oedolion%20%20[1].pdf)

‘Trefniadau Asesu, Cynllunio ac Adolygu Integredig ar gyfer Pobl Hŷn (2013)’ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/131217reportcy.pdf>

'Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag Anghenion Cymhleth (2014)'

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140319integrationcy.pdf>

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru www.waspi.org

Welsh Risk Pool Services All Wales Policy on insurance, NHS Indemnity and related risk management for potential losses and special payments' <http://howis.wales.nhs.uk/sites3/Documents/287/All%20Wales%20Policy%20on%20NHS%20Indemnity%20and%20Insurance%20-%20Final%20-%20160915.pdf>

SCIE Adult Services Report 36 Enabling risk, ensuring safety: Self-directed support and personal budgets
<http://www.scie.org.uk/publications/reports/report36/files/report36.pdf>

SCIE Guide 54 'Commissioning home care for older people 2014' <http://www.scie.org.uk/publications/guides/guide54/files/guide54.pdf>

'All Wales Guidance for Health Boards / Trusts in Respect of Medicines and Health Care Support Workers (2015)'
<http://www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/All%20Wales%20Guidance%20for%20Health%20Boards%20and%20Trusts%20in%20Respect%20of%20Medicines%20and%20HCSWs.pdf>

5. Darparwr Gweithiwr Cymorth Trydydd Parti

Awgrymiadau i'w hystyried

- Mae gweithwyr cymorth yn gweithio'n unol â disgrifiad swydd a chymwyseddau y mae'r gwasanaeth eu hangen ac fe'u cefnogir trwy oruchwyliaeth, gwerthusiadau, datblygiad personol a chynlluniau hyfforddi.
- Mae disgrifiad swydd gweithiwr cymorth yn nodi prif elfennau'r swydd. Er enghraifft, nodi'r angen am asesiad pellach gan weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol; cyfeirio a hybu iechyd; tasgau gofal cymdeithasol; tasgau wedi'u dirprwyo o Weithiwr Iechyd Proffesiynol Cofrestredig (nyrs, deietegydd neu therapydd arall.)
- Mae'r disgrifiad swydd yn ei gwneud yn eglur bod y gweithiwr cymorth yn cyflawni tasgau a ddirprwywyd sy'n benodol i'r defnyddiwr gwasanaeth penodol yn unig:
 - Yn seiliedig ar asesiad o anghenion y defnyddiwr gwasanaeth gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig.
 - Wedi'u cofnodi yng nghynllun gofal amlddisgyblaeth y defnyddiwr gwasanaeth.
 - Y cytunwyd eu bod yn briodol i gael eu cyflawni gan y gweithiwr cymorth.
 - A gyflawnir yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt ar gyfer tasgau penodol.
 - Tasgau y mae'r gweithiwr cymorth wedi cael ei hyfforddi i'w cyflawni, ac yr aseswyd ei fod yn gymwys i'w cyflawni, ac sy'n unol â threfn fonitro a goruchwyllo y cytunwyd arni.
 - Ni cheir trosglwyddo tasgau a ddirprwyir i weithwyr cymorth eraill oni bai eu bod wedi bod drwy'r broses ddirprwyo ac wedi cael eu dirprwyo i gyflawni'r dasg gyda'r defnyddiwr gwasanaeth gan y Gweithiwr Iechyd Proffesiynol Cofrestredig sy'n dirprwyo.
 - Ni cheir trosglwyddo tasgau a ddirprwyir i ddefnyddwyr gwasanaeth eraill oni bai eu bod wedi cael eu dirprwyo'n benodol gan y gweithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n dirprwyo.
- Mae'n ddyletswydd ar y gweithiwr cymorth i hysbysu'r dirprwywr a / neu ei reolwr llinell os nad yw'n teimlo'n gymwys neu nad yw'r gallu ganddo i gyflawni'r dasg/tasgau sy'n cael eu dirprwyo.
- Mae disgrifiad swydd gweithiwr cymorth yn cynnwys cyfeiriad at y Codau Ymddygiad ac Ymarfer.
- Mae lefelau priodol o Yswiriant ac Indemniad yn eu lle ac wedi'u cytuno'n eglur mewn unrhyw drefniadau cytundebol.

Dulliau ac Adnoddau

'Code of Conduct for Healthcare Support Workers in Wales' www.wales.nhs.uk/siteplus/829/page/4927

'All Wales Guidelines for Delegation (2010)'
www.wales.nhs.uk/sitesplus/829/opedoc/162750

'All Wales Guidance for Health Boards / Trusts in Respect of Medicines and Health Care Support Workers (2015)'
<http://www.awmsg.org/docs/awmsg/medman/All%20Wales%20Guidance%20for%20Health%20Boards%20and%20Trusts%20in%20Respect%20of%20Medicines%20and%20HCSWs.pdf>

'Fframwaith Llywodraethu i Datblygu Rôl y Gweithiwr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Gwasanaethau Oedolion (2012)'

[http://www.weds.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1076/Fframwaith%20Llywodraethu%20ar%20gyfer%20datblygu%20Rolau%20Gweithwyr%20Cymorth%20lechydd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20mewn%20Gwasanaethau%20Oedolion%20%20\[1\].pdf](http://www.weds.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1076/Fframwaith%20Llywodraethu%20ar%20gyfer%20datblygu%20Rolau%20Gweithwyr%20Cymorth%20lechydd%20a%20Gofal%20Cymdeithasol%20mewn%20Gwasanaethau%20Oedolion%20%20[1].pdf)

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn AGGCC (2004)

<http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/general/131009nmsolderadultscy.pdf>

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Asiantaethau Gofal Cartref yng Nghymru AGGCC (2004)

<http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/general/131009nmsdomcarecy.pdf>

Welsh Risk Pool Services All Wales Policy on insurance, NHS Indemnity and related risk management for potential losses and special payments' <http://howis.wales.nhs.uk/sites3/Documents/287/All%20Wales%20Policy%20on%20NHS%20Indemnity%20and%20Insurance%20-%20Final%20-%20160915.pdf>

Enghreifftiau o'r lleoedd y sicrhawyd gofal sy'n canolbwyntio ar y dinesydd

Nid yw dirprwyo tasgau gan Weithwyr Iechyd Proffesiynol y GIG i staff cymorth nad ydynt yn gweithio i'r GIG yn newydd ac mae'n cael ei wneud ledled Cymru; fodd bynnag, mae gweithredu hyn, effaith hyn a dysgu o hyn wedi digwydd ar lefel leol iawn. Mae'r enghreifftiau canlynol o bob cwr o Gymru yn dangos arfer da a llywodraethu wedi'i reoli'n dda i alluogi gofal diogel wedi'i deilwra ac sy'n canolbwyntio ar y dinesydd er mwyn diwallu anghenion unigolion.

Lle y sicrhawyd gofal sy'n canolbwyntio ar y dinesydd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board



Mae Allan yn 50 mlwydd oed a chanddo baraplegia a oedd angen goruchwyliaeth wrth iddo wirio ei lefelau glwcos gwaed ei hun ac wrth gymryd ei inswlin ei hun ac er mwyn goruchwyllo'r broses o osod cathetr yn ysbeidiol. Ei fam oedd ei brif ofalwr nes iddi hi farw ac, yn dilyn hyn, roedd gan Allan ofalwyr a oedd yn byw gydag ef ac roedd y Tîm Nyrsio Ardal yn galw heibio bob dydd. Roedd y Tîm Nyrsio Ardal yn gallu darparu'r hyfforddiant a'r oruchwyliaeth briodol i'r gofalwyr a oedd yn byw gydag Allan, a llwyddwyd i drosglwyddo holl ofal Allan i'r gofalwyr hyn dros gyfnod o ddau fis. Dim ond unwaith bob pythefnos y mae'r Tîm Nyrsio Ardal yn galw heibio nawr i fonitro'r gofal a ddarperir ac nid yw Allan yn teimlo fel claf, sy'n cael ymweliadau gan nifer o staff nyrsio ardal bob wythnos.

Mae Mavis yn ei 50au cynnar. Mae ganddi sglerosis ymledol ac mae mewn cadair olwyn. Roedd y Tîm Nyrsio Ardal yn ymweld â hi bob 3 diwrnod i newid ei chlwt lliniaru poen. Ar ôl trafod â'r Tîm Rheoli Meddyginiaeth, llwyddodd y Tîm Nyrsio Ardal i ddarparu'r hyfforddiant a'r oruchwyliaeth briodol fel y gallai'r gofalwyr wneud hyn. Mae'r Tîm Nyrsio Ardal yn galw heibio bob 8 wythnos yn unig nawr er mwyn monitro'r gofal a ddarperir a monitro mannau pwyso Mavis.

Mae Robert yn ei 80au ac mae angen llawes gywasgu Juxta System ar ei fraich chwith ar gyfer lymffedema. Mae'n anodd gwisgo a thynnu'r llawes heb gymorth ac mae angen ei thynnu'n feunyddiol cyn ymolchi a'i hail-wisgo cyn gwisgo. Roedd y nyrsys ardal yn mynd i gynorthwyo Robert bob dydd, ond roedd amseru eu hymwelid i beidio â tharfu ar ddiwrnod Robert a'i alluogi i wisgo'n llawn yn anodd iawn. Roedd gwraig Robert yn ei gynorthwyo gyda'i weithgareddau byw beunyddiol fel ymolchi a gwisgo, ond nid oedd yn hyderus yn ei gynorthwyo gyda'r llawes gywasgu. Gan fod helpu Robert i ymolchi a gwisgo wedi mynd yn ormod iddi, sicrhawyd gofalwyr i'w helpu hi gyda hyn. Yn dilyn hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol, roedd y gofalwyr yn gallu tynnu ac ail-wisgo'r llawes gywasgu gan ganiatáu i Robert ymolchi a gwisgo ar unwaith a gwella ansawdd ei fywyd. Dysgwyd ei wraig i wneud hyn hefyd gan ei bod wedi gweld y gofalwyr yn ei wneud, ac mae'n gallu helpu Robert erbyn hyn ac yn llwyddo i gyfrannu'n barhaus i'w ofal. Mae wedi cael hyn o fudd iddi hi ei hunan gan ei bod yn teimlo ei bod yn cyfrannu at ofal Robert. Mae'r nyrsys ardal yn parhau i ymweld â Robert 2 i 3 gwaith yr wythnos i helpu gydag ag agweddau eraill ar ei ofal ac i fonitro, cefnogi ac asesu'r gofal am ei lymffedema.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Prosiect oedd hwn a gefnogwyd gan y Gronfa Gofal Canolraddol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Llys y Bryn, cartref gofal preswyl sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol lle ceir 45 o welyau.

Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar Ofal Clwyfau nad ydynt yn Gymhleth, sy'n dasg iechyd lle ceir nifer fawr o achosion ac sy'n cymryd llawer o amser a fyddai'n sicrhau'r budd mwyaf i'r preswylwyr a'r gwasanaeth. Defnyddiwyd rhaglen gweithwyr cymorth Rhagoriaeth, Sicrwydd a Llywodraethu mewn Amgylchedd Dysgu (EAGLE) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda er mwyn dirprwyo'r dasg hon yn ddiogel ar gyfer preswylwyr penodol fel rhan o'u cynlluniau gofal integredig, wedi'i hategu gan hyfforddiant AGORED Cymru. Ymrwymodd y Tîm Nyrsio Ardal i helpu gofalwyr y cartref preswyl trwy waith goruchwyllo a reolir, monitro ac adolygu gofal. Roedd hyn yn bosibl trwy ryddhau eu hamser o gyflawni'r tasgau iechyd yn uniongyrchol.

Ni fu unrhyw effaith andwyol ar y canlyniadau clinigol. Mae'r preswylwyr yn dweud bod ansawdd eu bywyd yn well gan eu bod yn gallu cael gorchuddion syml ar eu clwyfau ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw, ac nid oes unrhyw ofyniad iddynt wisgo a dadwisgo'n ddiangen i hwyluso'r newidiadau i orchuddion clwyfau. Cryfhawyd y berthynas rhwng y Tîm Nyrsio Ardal a staff y cartref preswyl a nodwyd gwelliant o ran cadw cofnodion. Mae staff y cartref preswyl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn weithlu mwy hyderus sydd bellach eisiau dysgu sgiliau newydd.

Ar y cychwyn roedd costau i sefydlu'r hyfforddiant ac arferion yn cael eu goruchwyllo, ond cafodd y costau eu hadfer o fewn 6 mis gan fod y Tîm Nyrsio Ardal bellach yn treulio tua 50% yn llai o amser yn y cartref, a'r amser hwnnw yn sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir trwy oruchwyllo, monitro ac adolygu'n barhaus y tasgau a ddirprwywyd. Ers i hyn ddigwydd, nid yw'r cartref preswyl wedi mynd i gostau ychwanegol oherwydd bod y staff gofal yn cyflawni'r tasgau hyn.

Y bwriad yw ymestyn y tasgau iechyd wedi'u dirprwyo i breswylwyr unigol yn seiliedig ar eu cynlluniau gofal unigol trwy weithgareddau fel arsylwadau sylfaenol. Bydd y rhain yn cynnwys: cymryd tymheredd, curiad calon a phwysedd gwaed, monitro glwcos gwaed (pigiad bys) a rhoi diferion llygaid ac elïau argroenol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Mae Jenny yn wraig ifanc ag anableddau dysgu difrifol sy'n arwain at anghenion iechyd lluosog a chymhleth. Roedd yn byw gyda'i rhieni. Er bod y ddau riant yn gallu diwallu anghenion iechyd a chymdeithasol Jenny ar y pryd, roeddent yn ystyried y dyfodol ac yn awyddus i sicrhau bod Jenny wedi setlo mewn amgylchedd lle byddai'n derbyn gofal yn ddiogel ac y gallen nhw gymryd rhan yn ei gynllunio, tra bod eu hiechyd nhw eu hunain yn dda. Lleoliad preswyl mewn cartref lleol lle gallent barhau i gymryd rhan ym mywyd Jenny, wedi'u cefnogi gan weithgareddau canolfan ddydd, teithiau dydd a gwyliau oedd yr opsiwn a ffafrwyd ganddynt. Roedd yr opsiwn hwn yn golygu y gallai Jenny gael gofal holistaidd gan fod ei hanghenion cymdeithasol yn fwy na'i hanghenion iechyd.

Mae gan Jenny stumog-drychiad endosgopig drwy'r croen (PEG). Mae hyn yn golygu bod modd diwallu ei holl anghenion o ran maeth, hydradu a meddyginiaeth. Hwn oedd y prif rwystr i hwyluso symud Jenny i'r cartref gofal preswyl a ffafrwyd. Byddai'r amserlennu gofynnol o ran ymyriadau'r nyrs ardal yn cyfyngu'n sylweddol ar opsiynau Jenny ar gyfer mynd i weithgareddau cymdeithasol a'r gweithgareddau a drefnir gan y Ganolfan Ddydd, ac yn effeithio'n andwyol ar ansawdd ei bywyd.

Datblygwyd pecyn gofal wedi'i deilwra ar gyfer Jenny mewn partneriaeth â'i theulu, y Cartref Preswyl a'r Ganolfan Ddydd. Arweinydd y Tîm Nyrsys Ardal oedd y cydgysylltydd gofal mwyaf priodol ar gyfer Jenny. Trwy Arweinydd y Tîm Nyrsys Ardal, dirprwywyd rheolaeth ddiogel y PEG, gan gynnwys diwallu'r holl anghenion o ran maeth, hydradu a meddyginiaeth, yn ddiogel i staff gofal penodol yn y Cartref Preswyl a'r Ganolfan Ddydd. Gwnaed dirprwyo'r gwaith i drydydd parti yn fater o drefn i swyddogaeth Arweinydd y Tîm Nyrsys Ardal yn ei ddisgrifiad swydd, a daeth tasgau a ddirprwywyd i'r gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhan arferol o gyfrifoldebau staff gofal trwy eu disgrifiadau swydd gyda'r Cartref Gofal a'r darparwr Canolfan Ddydd. Rhoddwyd hyfforddiant llawn, wedi'i ategu gan ddeunyddiau hyfforddi a chymhorthion gweledol i'r staff cymorth, a chadarnhawyd eu cymwyseddau gan Arweinydd y Tîm Nyrsys Ardal. Cafwyd cefnogaeth lawn gan y fferyllfa gymunedol leol hefyd o ran cyflenwi a darparu meddyginiaeth a siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth. Mae Arweinydd y Tîm Nyrsys Ardal yn parhau i gefnogi trwy drefn oruchwylio a monitro wedi'i chynllunio, ac mae cynllun llawn wrth gefn yn ei le bellach. Os na fydd y Cartref Gofal neu'r Ganolfan Ddydd yn gallu diwallu anghenion Jenny am unrhyw reswm, bydd y Tîm Nyrsio Ardal yn camu i mewn i gefnogi.

Mae Jenny yn byw oddi cartref erbyn hyn ac yn cael cymorth gofal preswyl. Mae'n mynychu gweithgareddau cymdeithasol a drefnir gan ganolfan ddydd leol. Mae'r hyblygrwydd a gynigir gan fod ei gofalwyr rheolaidd yn gallu diwallu ei holl anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu y gall gymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Gall rhieni Jenny ymweld â hi a galw heibio a dal i fod yn rhan ymarferol o fywyd a chylch cymdeithasol Jenny.

Mae'r staff gofal yn y Cartref Preswyl a'r Ganolfan Ddydd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn gan y Tîm Nyrsio Ardal ac yn teimlo eu bod yn gwneud gwahaniaeth go iawn ym mywyd Jenny. Mae'r Tîm Nyrsio Ardal yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a'r effaith y mae'r

staff gofal yn eu cael ym mywyd Jenny a'r gwahaniaeth gwirioneddol y mae hyn wedi ei wneud.

Adolygwyd y pecyn gofal pwrpasol hwn o weithio ar y cyd, gofal effeithiol trwy gysondeb gofalwyr, gwerthuso rheolaidd a chymorth parhaus gan y Tîm Nyrsys Ardal, yn llawn gan BIPAB. Drwy weithredu'r pecyn gofal integredig hwn gwelwyd bod modd osgoi darnio gofal ac y gellir arbed costau gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig, sy'n ddiangen yn y pen draw, gan ddarparu gwasanaeth a phrofiad o ansawdd uwch i'r unigolyn.

Lle y sicrhawyd gofal sy'n canolbwyntio ar y dinesydd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board



Mae JD yn wraig ifanc 22 mlwydd oed gymdeithasol iawn sy'n byw gyda'i rhieni. Mae ganddi anabledd difrifol, mae'n defnyddio cadair olwyn, mae ganddi barlys yr ymennydd pedwar aelod a hydroceffalws, a bu ganddi lawer o broblemau meddygol yn y gorffennol. Mae hefyd wedi dioddef o sgoliosis, dysplasia'r glun sy'n achosi poen iddi, a chaiff ei bwydo gan ddefnyddio PEG. Hyd nes yr oedd yn 19 oed, roedd JD yn derbyn gofal seibiant ynghyd â chymorth gan y Tîm Nyrsio Cymuned Pediatriig. Wrth symud i wasanaethau i oedolion, cododd nifer o broblemau a rwystrodd fynediad iddi at ofal seibiant oedolion a gwasanaethau dydd i oedolion fel mater o drefn. Yn y gymuned bresennol, roedd gofalwyr cyflogedig yn gwneud y bwydo PEG, ac roedd hynny wedi cael ei wneud ers cryn amser, ond roedd cymhlethdod anghenion JD yn cymhlethu'r ddarpariaeth o ofal gan staff gwasanaethau gymdeithasol. Roedd asesiad risg a chynllun rheoli amlbroffesiwn ar waith i baratoi JD i gael mynediad at wasanaethau.

Yr her i wasanaethau lleol ar y pryd oedd nad oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno bod bwydo PEG yn rhan o'u cylch gwaith a gwrthodwyd hyn iddi oni bai fod nyrsys cofrestredig wedi'u hyfforddi yn dod gyda hi i ofal seibiant. Fodd bynnag, roedd cynllun rheoli risg cydnabyddedig ar waith eisoes.

Gwnaeth y teulu gŵyn i'r Ombwdsmon ac i Lywodraeth Cymru gan arwain at gomisiynu sefydliad o'r enw Kafka Brigade UK. Tîm ymchwil gweithredol dielw yw hwn sy'n arbenigo mewn camweithredu biwrocraidaidd gan sefydliadau.

Tynnodd profiad y teulu sylw at yr angen i sicrhau dull mwy cyson ac effeithiol o fwydo PEG, sy'n canolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr gwasanaeth.

Camau a Nodwyd:

Hyfforddiant i gael ei ddarparu fel y gall staff gyflawni'r broses bwydo PEG, gan gynnwys rhoi meddyginiaeth a gofal PEG fel mater o drefn.

Datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar y cyd rhwng maes iechyd a'r awdurdod lleol.

Oherwydd dull anghyson o fwydo PEG mewn cymunedau ledled Cymru, gorchmynnwyd adolygiad o fwydo PEG gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd.

Canlyniadau:

Cytunwyd ar brotocol PEG ar y cyd ac mae wrthi'n cael ei ddefnyddio. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau clinigol.

Mae'r holl staff gofal seibiant a gwasanaethau dydd yn cymryd rhan mewn rhaglen addysg barhaus.

Caiff darparwyr gofal sector annibynnol eu harchwilio i sicrhau bod eu staff wedi'u hyfforddi'n briodol.

Mae cynlluniau gofal ac asesiadau risg cyfredol ar waith ar gyfer pob cleient sy'n defnyddio PEG.

Adolygwyd canllawiau a dogfen ymgynghori o'r enw The All Wales Competency Framework to support Adults who require Home Enteral Tube Feeding via a Gastrostomy Feeding Tube gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymru Gyfan.

Yn olaf ond nid yn lleiaf, mae JD yn mwynhau mynediad at amrywiaeth o weithgareddau cymunedol a gofal seibiant lleol wedi'u cefnogi gan gohort ymroddgar o staff gofal cyflogedig sydd wedi'u hyfforddi'n benodol mewn rheolaeth PEG. Pecyn wedi'i deilwra sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw hwn, sy'n cael ei oruchwilio ar y cyd gan feysydd lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ychwanegiad 1 Enghraifft o ddogfennau ac asesiadau a gwblhawyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Atodiad 1

Tîm:

Gwasanaethau Nyrsio Ardal / Gofal
Iechyd Parhaus CIC

Safle:

Is-adran Gymunedol



- S** Ym mis Chwefror 2015, ceisiodd yr isadran gymunedol sefydlu pecyn gofal wedi'i deilwra ar gyfer unigolyn ag anghenion cymhleth.
- Mae cynigion o'r fath yn cynnig parhad gofal ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch y claf o fewn fframwaith dirprwyo ffurfiol
- Mae'r Trefniadau Gweithredu Safonol hyn yn nodi'r gofynion wrth arwain a rheoli arfer ar gyfer iechyd a diogelwch mewn lleoliad cymunedol ar gyfer darparu pecyn wedi'i deilwra o ofal ar gyfer dirprwyo proses dyfrhau'r rectwm Peristeen i gleient XY
- C** Paraplegig ifanc sy'n rhan o lwyth achosion y nyrsys ardal yw XY. Mae'n dymuno cyfeirio ei ofal ei hun ar adeg a chyflymder sy'n cyd-fynd â'i ffordd o fyw ei hun ac er mwyn bod yn annibynnol ar gyfyngiadau amserlenni ymyriadau gan nyrsio ardal.
- Gall XY fynegi ei ddymuniadau ei hun a mynegodd ddymuniad i'r agwedd hon ar ei ofal gael ei darparu gan ei *Ddarparwr Gofal* dan ei gyfarwyddyd ef, i gefnogi ei urddas, ei breifatrwydd a hyblygrwydd ei ofal.
- Nid yw'r gofalwyr wedi'u cyflogi gan BIPAB ac maent yn cael eu contractio gan y Bwrdd i ddiwallu anghenion Gofal Iechyd GIG parhaus XY.
- Fel y Cydgysylltydd Gofal, uwchgyfeiriodd Arweinydd y Tîm Nyrsio Ardal ddymuniadau XY i'r agwedd hon ar ei ofal gael ei dirprwyo. Fel y Cydgysylltydd Gofal, mae Arweinydd y Tîm Nyrsio Ardal yn hapus i ddarparu'r hyfforddiant gofynnol i weithwyr cymorth y darparwr gofal er mwyn darparu'r agwedd hon ar ofal XY ac i ddarparu goruchwyliaeth a monitro parhaus a'r cynllun wrth gefn priodol i liniaru unrhyw risg o'r pecyn gofal yn methu.
- Mae gan Arweinydd y Tîm Nyrsio Ardal yn ei rôl swydd arferol fel y'i cofnodir yn y disgrifiad swydd, y gwaith o ddirprwyo tasgau iechyd i weithwyr cymorth gofal iechyd a gweithwyr cymorth trydydd parti.

As	Asesiad	Ar	Camau a Argymhellir	Erbyn pryd	Dogfen Ategol
	Nod- Mae angen cynnig hyblygrwydd gofal ar gyfer darparu Peristeen		Datblygu pecyn gofal wedi'i deilwra	Chwefror 2015	Y SBAR hwn
	Amcan- Darparu pecyn gofal wedi'i deilwra yn ddiogel ac yn effeithiol		Datblygu fframwaith llywodraethu wedi'i deilwra, wedi'i hysbysu gan arfer gorau a chanllawiau lleol a chenedlaethol Gellir cael gwared ar gyfyngiadau amserlennu ar gyfer ymyriadau nyrsio ardal trwy roi'r pecyn gofal wedi'i deilwra ar waith Roedd dymuniadau'r claf yn flaenaf ac yn ganolog i ddatblygiad y pecyn hwn i ganiatáu ei ddewis, ei reolaeth a'i alluogi risg o gwmpas ei anghenion iechyd ei hun.	Chwefror 2015	Y SBAR hwn
	Dewis, Rheolaeth a Galluogi Risg		Mae'r gallu gan XY i wneud penderfyniadau am ei ofal parhaus. Mae XY wedi gofyn i'w ddarpariaeth o Peristeen gael ei chyflawni gan ei ofalwyr yn hytrach na chael ei chyfyngu i amseroedd pan all y Tîm Nyrsio Ardal drefnu'r ymweliadau. Cynnal Asesiad Dewis, Rheolaeth a Galluogi Risg Llenwi Ffurflen Ganiatâd i Peristeen gael ei ddarparu gan ei ofalwyr.	Chwefror 2015	Asesiad Dewis, Rheolaeth a Galluogi Risg (Atodiad 2)
	Mae angen Trefniadau Gweithredu Safonol		Datblygwyd cynllun gofal unigol a oedd yn asesu'r holl risgiau posibl ar gyfer rheoli/darparu Peristeen. Galluogodd hyn broses uwchgyfeirio trwy strwythur nyrsio BIPAB os bydd digwyddiad andwyol	Chwefror 2015	Diagram Llif Salwch XY (Atodiad 3) Trefniadau Gweithredu Safonol (Atodiad 4)
	Mae angen sicrhau yr ystyriwyd yr holl agweddau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch		Cwblhawyd asesiadau risg 1a ac 1b	Chwefror 2015	Ffurflen asesu risg Peristeen 1B (Atodiad 5)
	Trefniadau pontio cadarn ar waith mewn cydweithrediad â'r Tîm Nyrsio Ardal a theulu'r claf		Cysylltiad agos gyda'r CIC a'r tîm Nyrsys Ardal i sicrhau bod yr holl amserlennu ar waith tra bod y rhaglen hyfforddi'n cael ei darparu a chymwyseddau'n cael eu hasesu	Chwefror 2015	

Datblygu rhaglen hyfforddi	Cafodd gweithdrefn Peristeen ei dysgu i'r Tîm Nyrsio Ardal gan Gynrychiolydd Nyrsio Peristeen Coloplast Datblygwyd Fframwaith Cymhwysedd ac fe'i haliniwyd â Pholisi Wirral ar gyfer darparu Peristeen	Chwefror 2015	Dogfen Dyfrhau'r Rectwm Cymhwysedd (Atodiad 6)
Rhaglen Addysgol wedi'i darparu gan y Tîm Nyrsio Ardal	Cafodd gweithdrefn Peristeen ei dysgu i'r Tîm Nyrsio Ardal gan Gynrychiolydd Nyrsio Peristeen Coloplast Mae Nyrsys Ardal wedi bod yn cadarnhau cymhwysedd gofalwyr trwy arddangos y weithdrefn a'r gofalwr yn ei dilyn dan oruchwyliaeth Nyrs Ardal Mae Nyrsys Ardal yn addysgu pob gofalwr newydd ac yn parhau i wneud hyn gan gynnwys sesiynau diweddarau nes bydd y gofalwr yn gyfforddus gyda'r weithdrefn Cysylltiad <i>Active Assist</i> â Coloplast sy'n gweithgynhyrchu Peristeen ar gyfer diweddarau hyfforddiant i ofalwyr y maent yn eu cyflogi	Chwefror 2015	Dogfen Dyfrhau'r Rectwm Cymhwysedd wedi'i Phersonoli XY (Atodiad 7)
Cydweithredu â Nyrsys Coloplast i gefnogi darpariaeth y rhaglen hyfforddi ymhellach. Cynhaliodd Nyrs Arbenigol Ymataliaeth asesiad o addasrwydd ar gyfer dyfrhau'r rectwm Peristeen ar gyfer XY yn unol â swyddogaeth arbenigwr Nyrs Arbenigol Ymataliaeth BIPAB pan gychwynnwyd hyn	Cymorth arbenigol ac arbenigedd i sicrhau bod holl anghenion XY yn cael eu rhagweld a'u diwallu trwy ddatblygiad sgiliau yn seiliedig ar dystiolaeth	Chwefror 2015	

Atodiad 2

Asesiad Dewis, Rheolaeth a Galluogi Risg

Rhan 1

Enw'r Defnyddiwr Gwasanaeth:	XY
Enw'r Cydgysylltydd Gofal:	XX
Dyddiad yr Asesiad:	Chwefror 2015

Natur y Risg

Hoffai XY i'w ofalwyr gyflawni'r drefn feddyginiaeth gymhleth hon. Oherwydd techneg arbenigol a'r perygl o orfod mynd i'r ysbyty trwy gyflawni hyn yn wael, mae hyn o risg Uchel i Ddifrifol os na roddir y feddyginiaeth yn unol â'r presgripsiwn.

Dibwys	Isel	Cymedrol	Uchel	Difrifol
Nid yw'r unigolyn yn cymryd meddyginiaeth	Yn cymryd meddyginiaeth a roddwyd ar bresgripsiwn, ceir risg isel i'r unigolyn neu eraill o beidio â chymryd y feddyginiaeth hon yn y tymor byr.	Yn anghofio cymryd y feddyginiaeth yn achlysurol / Rhai problemau'n darllen neu'n deall y labeli a'r cyfarwyddiadau ar gyfer y feddyginiaeth / Rhywfaint o anhawster yn rheoli'r feddyginiaeth – archebu, storio ac ati / Lefel o feddyginiaeth arbenigol / Angen ei atgoffa i gymryd y feddyginiaeth neu ei oruchwyllo / Angen lladdwyr poen rheolaidd / Rhywfaint o risg o orddos	Angen cymorth gyda phob agwedd ar y feddyginiaeth / Ddim yn gallu rheoli'r feddyginiaeth heb gymorth/ Perygl o orddos/ Rhoddir y feddyginiaeth trwy 'dechneg arbenigol' / Dull anhrefnus o gymryd y feddyginiaeth / Y posibilrwydd o gamdriniaeth trwy feddyginiaeth (gor-ddarparu neu ddim yn cael ei rhoi – (DIOGELU)	Mae pryderon am y feddyginiaeth yn ddifrifol ac mae risg ar fin digwydd / Mae lles, iechyd ac annibyniaeth mewn perygl oherwydd mater yn gysylltiedig â'r feddyginiaeth (ee Anymwybyddiaeth) A OES ANGEN I CHI ALW 999

Lliniaru

A yw dirprwyo'r dasg hon o les i XY?

Ydy, gan ei fod yn galluogi XY i beidio â chael ei gyfyngu gan yr ymweliadau a drefnir gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig a gall ei ofalwyr rheolaidd ddarparu ei holl ofal.

A yw'n bosibl dirprwyo'r dasg hon yn ddiogel?

Ydy, gall gweithwyr cymorth gynorthwyo a chyflawni'r cymwyseddau ar gyfer rhoi'r feddyginiaeth hon.

A ellir rhoi cynllun gofal unigol priodol ar waith yn gynaliadwy?

Gellir, gweler y SBAR a'r dogfennau sydd ynghlwm

Rhan 2

Enw'r Defnyddiwr Gwasanaeth:	XY
Enw'r Cydgysylltydd Gofal:	XX
Dyddiad yr Asesiad:	Chwefror 2015

Panel Galluogi Risg	
Aelodau	
Teitl	Presennol
Defnyddiwr Gwasanaeth	XY
Rheolwr Ardal	TT
Cydgysylltydd Gofal	XX
Eiriolwr / Aelod o'r Teulu	PY
Pennaeth y Proffesiwn Priodol (Nyrsio)	PL
Arweinwyr Proffesiynol (Fferyllwyr)	JC
Cynghorwyr arbenigol eraill (Cyfreithiol neu glinigol)	CR Nyrs Arbenigol
Gweithiwr Allweddol	AB
Cynrychiolydd y Darparwr Gofal	DE
Cymorth Gweinyddol (Cofnodwr)	JJ

Cadeirydd y Panel	TT Rheolwr Ardal
-------------------	------------------

Dogfennau a Adolygwyd
SBAR Diagram Llif Trefniadau Gweithredu Safonol Gofynion Cymhwysedd


Trafodaeth
Mae'n gwbl gywir a phriodol fod XY yn gallu byw bywyd mor normal â phosibl ac nad yw'n cael ei gyfyngu yn ei weithgareddau oherwydd amserlen y gweithwyr iechedd proffesiynol cofrestredig sy'n dod i'w gartref i ddarparu'r driniaeth hon. Er na chafodd y driniaeth hon ei ddarparu'n lleol o'r blaen, mae hyfforddiant, gwaith monitro a goruchwyliaeth y gweithwyr cymorth ac addasrwydd y pecyn cymhwysedd yn gorbwyso'n llwyddiannus y risgiau sydd ynghlwm wrth weithwyr cymorth yn cyflawni'r dasg hon y maent yn y sefyllfa orau i'w chyflawni er cyfleustra XY.

Canlyniad y Drafodaeth
Galluogi XY i gael ei ofalwyr cyflogedig i ddarparu triniaeth dyfrhau'r rectwm Peristeen.

Atodiad 3

Diagram Llif Uwchgyfeirio Wrth Gefn

Diagram Llif Salwch XY



Key to above diagram:

Generally Unwell... – Cyffredinol Sâl / Gofalwyr / Teulu'n Bresennol

XY Carers... – Gofalwyr / Teulu XY i gysylltu â'r meddyg teulu

If XY condition... – Os bydd cyflwr XY yn dirywio a'i fod yn fwy sâl, Gofalwyr / Teulu i alw 999

AD =... – AD = Dysreflecsia Awtonomig

If Family not... – Os nad yw'r Teulu'n bresennol, y Gofalwyr i gysylltu a hysbysu'r Teulu am yr alwad 999

Suddenly Unwell... – Yn sâl yn sydyn / Symptomau AD / Gofalwyr / Teulu'n Bresennol

If AD Symptoms... – Os bydd symptomau AD / chwysu / Cael gwared ar yr achos posibl os yw'n hysbys

XY / Carers... – XY / Gofalwyr / Teulu Ystyried rhoi meddyginiaeth isdafodol ADALAT

No improvement... – Dim gwelliant / Gofalwyr / Teulu i alw 999

AD symptoms begin... – Symptomau AD yn dechrau yn ystod Dyfrhau'r Rectwm Peristeen gyda'r Gofalwr

XK / Carer... – XK / Gofalwr i ryddhau dŵr ar unwaith o Ddyfais Dyfrhau'r Rectwm Peristeen i gael gwared ar yr achos

If AD symptoms... – Os bydd symptomau AD yn parhau

XY / Carers... – XY / Gofalwyr / Teulu Ystyried rhoi meddyginiaeth isdafodol ADALAT

If carers need... – Os bydd y gofalwyr angen cyngor ar Peristeen, dylent gysylltu â'r Nyrsys Ardal 079513576 9am – 8pm

No improvement... – Dim gwelliant Gofalwyr / Teulu i alw 999

Blocked Catheter... - Cathetr Caeedig Gofalwr yn Bresennol

Carers try... – Gofalwyr yn rhoi cynnig ar 2 X Golchiadau Cathetr Uwchbwbwbig pwls

If not successful... – Os nad yw'n llwyddiannus, dylid cysylltu â'r Nyrs Ardal 079513576 9am – 8pm Mae gan Nyrsys Ardal amser ymateb o 2 awr

If outside of... – Os yw y tu allan i oriau'r Nyrsys Ardal neu os oes oedi cyn daw ymateb gan y Nyrsys Ardal, ffoniwch 0854600123

If AD symptoms... – Os oes symptomau AD ac os nad yw'r cathetr wedi'i ail-osod yn llwyddiannus gan y Nyrs Ardal, dylai XY / Gofalwyr / Teulu ystyried rhoi meddyginiaeth isdafodol ADALAT

No improvement... – Dim gwelliant Gofalwyr / Teulu i alw 999

Atodiad 4

Trefniadau Gweithredu Safonol ar gyfer dirprwyo darparu Peristeen i weithwyr gofal nad ydynt yn rhan o'r GIG

Mae'r Trefniadau Gweithredu Safonol hyn yn nodi'r gofynion wrth arwain a rheoli arferion iechyd a diogelwch mewn lleoliad cymunedol er mwyn darparu pecyn gofal wedi'i deilwra ar gyfer dirprwyo'r gwaith o ddyfrhau'r rectwm Peristeen i gleient XY

Risg a nodwyd	Proses uwchgyfeirio	Rheolaethau presennol	Camau i'w cymryd	Unigolion allweddol i'w hysbysu	Monitro'r canlyniad
Os bydd damwain – Gallai damwain fod yn ddigwyddiad mawr neu fach – digwyddiad nas rhagwelwyd ac sy'n achosi anaf; gall damweiniau ddigwydd oherwydd syrthio; peryglon yn yr amgylchedd; salwch; anabled; gwendidau; nam ar y synhwyrâu a nam gwybyddol	Hysbysu gwasanaethau Nyrsio Ardal ar unwaith – cwblhau adroddiad DATIX	Asesiad risg unigol yn ei le Cyflwynwyd dyfrhau'r rectwm Peristeen ar ôl asesu addasrwydd y claf gan Nyrsi Arbenigol Ymataliaeth BIPAB Mae'r gallu gan y claf i ddewis y dull hwn o reoli'r coluddyn gan wybod yn iawn am y cymhlethdodau posibl a all godi	Asesiad ar unwaith o gyflwr y claf Adroddiad DATIX gan y tîm Nyrsio Ardal	Y tîm Nyrsio Ardal i hysbysu'r uwch nyrs yn ystod oriau gwaith. Dylid hysbysu'r uwch nyrs sydd ar-alwad y tu allan i'r oriau hyn. Dylid gwneud penderfyniad am yr angen i uwchgyfeirio i'r nyrs arweiniol is-adrannol a'r tîm nyrsio gweithredol	Ymchwiliad a chanlyniad yr adroddiad DATIX
Efallai y bydd y Tîm Nyrsio Ardal yn anghyfarwydd â Dyfrhau Peristeen ac efallai y bydd aelodau tîm newydd yn eu swyddi	Uwchgyfeirio i arweinydd y tîm Nyrsio Ardal i roi sylw i anghenion hyfforddi	Rhaglen hyfforddiant unigol ar waith sy'n benodol i anghenion y claf	Y tîm Nyrsio Ardal i gael yr hyfforddiant diweddaraf gan y Nyrs Peristeen a gyflogir gan Coloplast. Nyrsys Ardal eisoes yn gymwys i oruchwylio a hyfforddi aelodau newydd o'r tîm. Y claf yn gallu hysbysu a chyfarwyddo sut mae'n dymuno i'r driniaeth gael ei chyflawni	Arweinydd y Tîm Nyrsio Ardal	Arweinydd y Tîm Nyrsio Ardal

Risg a nodwyd	Proses uwchgyfeirio	Rheolaethau presennol	Camau i'w cymryd	Unigolion allweddol i'w hysbysu	Monitro'r canlyniad
Efallai y bydd gofalwyr asiantaeth gofal yn anghyfarwydd â Dyfrhau Peristeen	Uwchgyfeirio i Nyrsys Ardal i roi sylw i anghenion hyfforddi	Rhaglen hyfforddiant gofalwyr unigol yn ei lle sy'n benodol i anghenion y claf Mae'r claf yn gallu cyfeirio ei ofal ei hun	Yr asiantaeth gofal i gynnwys hyfforddiant dyfrhau'r rectwm Peristeen fel pwnc craidd yn rhaglen sefydlu eu gofalwyr a bod yn gyfrifol am sicrhau bod gofalwyr sy'n cael eu neilltuo i'r claf hwn yn meddu ar yr wybodaeth hon. Nyrsys Ardal sy'n gymwys i ddarparu dyfrhau'r rectwm Peristeen i hyfforddi gofalwyr nes eu bod yn hapus i ddarparu'r driniaeth a'i chofnodi yn y nodiadau Nyrsio, gan gynnwys enw'r gofalwr. Nyrsys Ardal i ddilyn taflen cymwyseddau Gweithdrefn Coloplast ar gyfer Dyfrhau'r Rectwm wedi'i haddasu i anghenion cleifion unigol wrth hyfforddi gofalwyr. Os nad yw'r gofalwr yn fodlon cyflawni'r gwaith o ddyfrhau'r rectwm Peristeen, bydd y tîm Nyrsio Ardal yn ymweld â'r claf ac yn cyflawni'r driniaeth	Arweinydd y Tîm Nyrsio Ardal a'r tîm Nyrsio Ardal	Arweinydd y Tîm Nyrsio Ardal a'r tîm Nyrsio Ardal
Efallai na fydd Dyfrhau Peristeen yn arwain at wacau'r rectwm yn briodol	Uwchgyfeirio i Nyrsys Ardal	Bydd y broses o ddyfrhau'r rectwm yn cael ei hailadrodd y diwrnod canlynol	Bydd y claf yn cymryd mwy o fwyd a hylifau. Bydd y claf yn cymryd mwy o garthyddion geneuol fel sy'n briodol Bydd y broses o ddyfrhau'r rectwm yn cael ei hailadrodd y diwrnod canlynol Cysylltir â'r Nyrsys Ardal am gyngor os yw'r broses o ddyfrhau'r rectwm Peristeen yn aflwyddiannus eto ar yr ail ddiwrnod. Nyrsys Ardal i gysylltu â'r Nyrs Arbenigol Ymataliaeth os oes angen cyngor	Arweinydd y Tîm Nyrsio Ardal a'r tîm Nyrsio Ardal	Y claf, Gofalwyr a'r tîm Nyrsio Ardal fel sy'n briodol

Risg a nodwyd	Proses uwchgyfeirio	Rheolaethau presennol	Camau i'w cymryd	Unigolion allweddol i'w hysbysu	Monitro'r canlyniad
Y claf yn dechrau datblygu Dysrefflecsia Awtonomig (AD) wrth ddyfrhau'r rectwm	Dilyn canllawiau AD a chamau'r siart llif uwchgyfeirio	Gall y claf adnabod ei symptomau ei hun o'i AD Mae'r gofalwyr yn gyfarwydd ag arwyddion a symptomau'r claf unigol o AD a'r camau i'w cymryd	Rhoddir terfyn ar ddyfrhau'r rectwm Peristeen gan y claf neu'r gofalwr. Os nad yw'r AD yn stopio, mae'r claf a'r gofalwr yn trin yr AD yn unol â'r canllawiau a'r Siart Llif uwchgyfeirio unigol. Y Gofalwr yn galw am gymorth brys os yw'n ofynnol, fel ar gyfer achos arall o AD sy'n cael ei sbarduno gan symbyliadau eraill	Gwasanaetha u Brys a'r Teulu	Y claf, gofalwyr a'r teulu
Mae'n ymddangos bod yr offer Peristeen yn ddiffygiol	Uwchgyfeirio gan y claf / gofalwyr i'r feddygfa deulu Nyrs Arbenigol Ymataliaeth Gweithgynhyrchydd dyfais Peristeen Coloplast	Archebu stoc briodol ar gyfer y ddyfais Peristeen ar FP10. Cit Peristeen wrth gefn i fod ar gael yng nghartref y claf	Gofalwyr a'r claf i archwilio: y tiwb, enchwythiad / gor-enchwythiad y balŵn, tymheredd y dŵr a lleoliad y tiwb a'r cit pwmpio Y gofalwyr i newid tiwb y rectwm am un newydd. Y gofalwyr i newid yr holl ddyfais am un newydd Y gofalwyr a'r claf i sicrhau bod y cit yn cael ei newid yn dilyn y cyfnodau a argymhellir. Y gofalwyr / y claf i archebu cit dyfais Peristeen newydd ar FP10 trwy feddyg teulu Y gofalwyr / y claf i uwchgyfeirio i weithgynhyrchwyr Coloplast os ymddengys bod yr offer yn ddiffygiol ar ôl yr archwiliadau uchod	Meddygfa deulu Nyrs Arbenigol Ymataliaeth Gweithgynhyrchydd dyfais Peristeen Coloplast	Y claf, gofalwyr a'r teulu

Rheoli Iechyd a Diogelwch Ffurflen Asesu Risg 1B

Safle: Y Tîm Nyrsio Ardal **Adran:** Cymunedol **Is-adran:** Cymunedol

Disgrifiad o'r Gwaith:

- Mae nyrs ardal yn dysgu am weithdrefn dyfrhau'r rectwm Peristeen i ofalwyr penodol o'r asiantaeth gofal sy'n gofalu am XY 24 awr y diwrnod gan fod hyn yn cynnal ei ymataliaeth a'i urddas
- Urddas ac yn atal anymataliaeth ymgarthol
- Paraplegig ifanc sy'n rhan o lwyth achosion y nyrsys ardal yw XY, sy'n dymuno cyfeirio ei ofal ei hun ar adeg a chyflymder sy'n cyd-fynd â'i ffordd o fyw ei hun ac i fod yn annibynnol ar gyfyngiadau amserlenni ymyriadau nyrsys ardal.

Perygl(on) posibl pan gaiff tasg ei chyflawni:

- Ni chyflogir y gofalwyr gan BIPAB a dysgasant am y swyddogaeth ddirprwyedig gan Nyrsys Ardal, er y gall XY fynegi ei ddymuniadau ac mae'n cyfeirio ei ofal ei hun
- Lleolir safle tiwb dyfrhau Peristeen gan y gofalwyr yn ôl cyfarwyddiadau XY ac mae'n cyfeirio cyflymder gweddill y driniaeth
- Ar ôl i'r hylif o'r Peristeen gael ei bwmpio i mewn i rectwm XY, mae'n achosi iddo ddechrau dioddef symptomau Dysreflecsia Awtonomig, y mae'n eu hadnabod, ac yn terfynu'r driniaeth ar ôl iddo ryddhau hylif ei hun
- Mae bob amser yn bosibl na fydd y driniaeth yn effeithiol

Nifer y bobl a amlygir i'r perygl yn ystod y gwaith hwn:

Rôl swyddi'r rhestr staff	Y claf / eraill
Tîm Nyrsio Ardal	Gwasanaethau Cymdeithasol yr Asiantaeth Gofal

Amlder yr Amlygiad:

Anaml		Blynyddol		Misol	X	Wythnosol		Dyddiol		Bob awr		Parhaus	
-------	--	-----------	--	-------	---	-----------	--	---------	--	---------	--	---------	--

Sgôr Risg Cychwynnol:

Sgôr Tebygoliaeth Debygol (PRL)	5	X	Sgôr Difrifoldeb Posibl (PSR)	2	=	Sgôr Risg Cychwynnol (IRR)	10
---------------------------------	---	---	-------------------------------	---	---	----------------------------	----

Mesurau rheoli a gymerwyd eisoes i leihau'r risg:

- Cynrychiolydd nyrsio Peristeen Coloplast wedi dysgu am y weithdrefn Peristeen i'r tîm Nyrsio Ardal a chawsant yr wybodaeth ddiweddaraf ym mis Chwefror 15
- Mae Nyrsys Ardal wedi bod yn cadarnhau cymhwysedd gofalwyr trwy arddangos y weithdrefn a'r gofalwr yn ei dilyn o dan oruchwyliaeth Nyrs Ardal
- Mae Nyrsys Ardal yn addysgu pob gofalwr newydd ac yn parhau i wneud hyn gan gynnwys sesiynau diweddarau nes bod y gofalwr yn gyfforddus a'r weithdrefn
- Active Assist yn cynnwys hyfforddiant Peristeen i'w gofalwyr fel rhan o'i raglen hyfforddiant craidd
- Cysylltiad Active Assist â Coloplast sy'n gweithgynhyrchu Peristeen ar gyfer diweddarau hyfforddiant i ofalwyr y maent yn eu cyflogi
- Os bydd dyfrhau Peristeen yn aflwyddiannus, yna caiff ei ailadrodd y diwrnod canlynol, os yw'n aflwyddiannus eto, gofynnir am gyngor am garthyddion gan Nyrsys Ardal, a bydd Nyrsys Ardal yn ymweld â'r claf i gyflawni'r weithdrefn y diwrnod canlynol
- Cynhaliodd Nyrs Arbenigol Ymataliaeth asesiad o addasrwydd ar gyfer dyfrhau'r rectwm Peristeen ar gyfer XY yn unol â swyddogaeth Nyrs Arbenigol Ymataliaeth BIPAB pan sefydlwyd hyn

Sgôr Risg Gweithio:

Sgôr Tebygoliaeth Debygol (PRL)	3	X	Sgôr Difrifoldeb Posibl (PSR)	2	=	Sgôr Risg Cychwynnol (IRR)	6
---------------------------------	---	---	-------------------------------	---	---	----------------------------	---

Mesurau rheoli ychwanegol sy'n ofynnol:							
- Trefniadau Gweithredu Safonol yn cael eu datblygu ar gyfer BIPAB - Cafwyd gafael ar Bolisi Dyfrhau'r Rectwm Peristeen gan Ymddiriedolaeth GIG Wirral - Datblygwyd diagram llif uwchgyfeirio'n benodol ar gyfer XY							
Sgôr Risg Gweddilliol:							
Sgôr Tebygoliaeth Debygol (PRL)	2	X	Sgôr Difrifoldeb Posibl (PSR)	2	=	Sgôr Risg Cychwynnol (IRR)	4
Aseswyr:							
Enwau:		Llofnod:		Swydd:			
XX		XX		Arweinydd y Tîm Nyrsio Integredig a Dirprwy Arweinydd y Tîm			
Dyddiad yr Asesiad:		Chwefror 2015		Cyfnod Adolygu:		Misol	
Dyddiadau Adolygu:							
3/3/15	12/4/15	8/5/15	9/6/15				
Adroddiad ar Gynnydd:				RRR	Dyddio a Llofnodi		

Y WEITHDREFN AR GYFER DYFRHAU'R RECTWM

	CAM GWEITHREDU	RHESYMEG	W	A ac S					P
				Cyflawniad / dyddiad	Cyflawniad / dyddiad	Cyflawniad / dyddiad	Cyflawniad / dyddiad	Cyflawniad / dyddiad	
1	Archwilio dogfennau'r cynllun gofal	Sicrhau bod cynllun y claf yn cael ei ddilyn. Sicrhau diogelwch y claf.							
2	Golchi dwylo neu ddefnyddio hylif dwylo bacterioleiddiol	Lleihau'r risg o groes-heintio.							
3	Esbonio a thrafod y driniaeth gyda'r claf	Sicrhau bod y claf yn deall y weithdrefn ac yn rhoi caniatâd dilys							
3a	Archwiliad llawn o'r rectwm (DRE)	Archwilio'r rectwm i wneud yn siŵr ei fod yn ddigon clir i osod y cathetr neu gael gwared ar garthion o'r rectwm cyn dyfrhau.							
4	Casglu'r offer angenrheidiol A gwisgo ffedog a menig diogelwch	Sicrhau bod yr holl offer ar gael cyn dechrau'r driniaeth a lleihau trosglwyddiad heintiau ac anghysur y claf.							
5	Paratoi a gosod y claf uwchben y toiled	Sicrhau preifatrwydd a diogelwch y claf.							
6	Caniatáu i'r claf wacau ei bledren yn gyntaf os oes angen	Gallai pledren lawn achosi anghysur yn ystod y driniaeth							
7	Paratoi'r system ddyfrhau, paratoi'r tiwb a hydradu'r cathetr.	Sicrhau diogelwch a chysur y claf.							
8	Rhoi'r cathetr i mewn yn y rectwm yn araf hyd at y grip bys a rhoi aer yn y balŵn, 2 bwmp (pwmpiwch ar y symbol glas)	Lleihau'r risg o drawma a dal y cathetr yn y rectwm.							
9	Troi'r pwmp i'r symbol dŵr, pwmpio dŵr i mewn, 700ml, yn araf	Dyfrhau'r coluddyn Sicrhau diogelwch.							
10	Gollwng yr aer allan o'r balŵn, tynnu'r tiwb a chael gwared arno ac annog y claf i ymlacio.	Gwella effaith y gwacau							
11	Tylino ochr chwith yr abdomen am i lawr os nad yw wedi'i wacau'n llawn.	Gwella effaith y gwacau							
12	Ar ôl cwblhau'r gwacau, codwch y claf	Hybu cysur y claf ac osgoi digroeniad.							

	yn ôl i'r gwely er mwyn golchi a sychu'r perinëwm. Gwisgwch ef.	Edrych i weld na fu unrhyw drawma.							
13	Cofnodi gwybodaeth mewn dogfennau perthnasol	Cadw cofnodion proffesiynol a chyfreithiol. Helpu'r cyfathrebu a darparu hanes cyflawn y claf.							
14	Gwyllo a bod yn ymwybodol o arwyddion o drydylliad.	Sicrhau diogelwch y claf.							
15	Monitro dyddiadau terfyn yr offer Defnyddiwch gathetr y rectwm unwaith yn unig Newidiwch y bag dŵr ar ôl ei ddefnyddio 15 gwaith Newidiwch y pwmp bob chwe mis	Sicrhau diogelwch y claf gan leihau'r risg o drawma i'r anws. Sicrhau bod yr offer yn gweithio bob amser.							
16	Ail-archebu offer	Sicrhau diogelwch y claf.							
DYDDIAD									
LLOFNOD YR ASESWR									
LLOFNOD Y CYNORTHWY-YDD GOFAL IECHYD									

W	Tystiwyd	Arsylwi neu dystio'r cymhwysedd. Mae'n arfer da cael cyfle i arsylwi'r driniaeth cyn bod yn destun goruchwyliaeth.
A	Cymathu	Dan elfennau'r cymhwysedd
S	Goruchwylwyd	Arfer dan oruchwyliaeth i ddangos dealltwriaeth Angen rhagor o ymarfer. Yn dangos gallu Yn hyfedr
P	Hyfedr	Yn gymwys o ran elfennau gwybodaeth a sgiliau'r cymhwysedd.

Sylwadau/Cofnod Cynnydd ar gyfer rhoi micro-enemâu a thawddgyffuriau

	DYDDIAD	SYLWADAU	LLOFNOD (y gofalwr a'r Nyrs Gofrestredig)
Ceir asesu A ac S gyda'i gilydd i ddarganfod cymhwysedd			
ᵀ		Yn gyson hyfedr ym mhob maes Llofnodwch y cofnod meistr nawr	

GWEITHDREFN WEDI'I PHERSONOLI AR GYFER DYFRHAU'R RECTWM – XY Chwefror 15 Protocol Gofal a Rennir

Gwnaed gan	CAM GWEITHREDU	RHESYMEG	W	A ac S					P
				Cyflawniad / dyddiad	Cyflawniad / dyddiad	Cyflawniad / dyddiad	Cyflawniad / dyddiad	Cyflawniad / dyddiad	
Gofalwr	Archwilio dogfennau'r cynllun gofal	Sicrhau y dilynir cynllun XY a sicrhau diogelwch.							
Gofalwr	Golchi dwylo neu ddefnyddio hylif dwylo bacterioleiddiol	Lleihau'r risg o groes-heintio.							
Gofalwr / XY	Esbonio a thrafod y driniaeth gyda XY	Sicrhau bod XY yn deall y driniaeth ac yn rhoi caniatâd							
Gofalwr	Casglu'r offer angenrheidiol a gwisgo ffedog a menig diogelwch	Sicrhau bod yr holl offer ar gael cyn dechrau'r driniaeth a lleihau'r siawns o drosglwyddo heintiau ac anghysur XY.							
Gofalwr	Paratoi a gosod XY uwchben y toiled	Sicrhau preifatrwydd a diogelwch XY.							
Gofalwr	Paratoi'r system ddyfrhau	Sicrhau diogelwch a chysur XY.							
XY	Paratoi'r tiwb a hydradu'r cathetr	Sicrhau diogelwch a chysur XY.							
Gofalwr	Rhoi'r cathetr i mewn i'r rectwm yn araf hyd at hyd bys	Lleihau'r risg o drawma a dal y cathetr yn y rectwm.							
XY	Troi'r pwmp i'r symbol glas. Rhoi aer yn y balŵn yn araf, 2 bwmp (pwmpiwch ar y symbol glas)	Rhoi aer yn y balŵn yn araf, 2 bwmp (pwmpiwch ar y symbol glas)							
XY	Troi'r pwmp i'r symbol dŵr, pwmpio dŵr i mewn, 700mls, yn araf os bydd y chwibanau'n arafu	Dyfrhau'r coluddyn Sicrhau diogelwch.							
XY	Gollwng yr aer allan o'r balŵn, tynnu'r tiwb a chael gwared arno ac annog XY i ymlacio.	Gwella effaith y gwacau							
XY	Tylino ochr chwith yr abdomen am i lawr os nad yw wedi'i wacau'n llawn.	Gwella effaith y gwacau							
Gofalwr	Pan fydd y gwacau wedi'i gwblhau, gwrthio Dan i'r gawod yn ei gadair olwyn i gael cawod, ymolchi a sychu yn ôl yr arfer	Hybu cysur XY ac osgoi digroeniad. Edrych i weld na fu unrhyw drawma.							

Gofalwr	Cofnodi gwybodaeth mewn dogfennau perthnasol	Cadw cofnodion proffesiynol a chyfreithiol. Helpu'r cyfathrebu a darparu hanes gofal cyflawn y claf.							
XY / Gofalwr	Gwyllo a bod yn ymwybodol o arwyddion o drydylliad. Edrych am arwyddion o AD ond mae Peristeen yn lleihau'r tebygolrwydd o achos o AD i XY	Sicrhau diogelwch XY a gweithredu'n briodol mewn achos brys.							
XY / Gofalwr	Monitro dyddiadau terfyn yr offer Defnyddiwch gathetr y rectwm unwaith Newidiwch y bag dŵr ar ôl ei ddefnyddio 15 gwaith Newidiwch y pwmp bob chwe mis	Sicrhau diogelwch XY gan leihau'r risg o drawma i'r anws a sicrhau bod yr offer yn gweithio bob amser.							
Gofalwr	Ail-archebu offer	Sicrhau diogelwch XY.							
DYDDIAD									
LLOFNOD YR ASESWR									
LLOFNOD Y CYNORTHWY-YDD GOFAL IECHYD									
W	Tystiwyd	Arsylwi neu dystio'r cymhwysedd. Mae'n arfer da cael cyfle i arsylwi'r driniaeth cyn bod yn destun goruchwyliaeth.							
A	Cymathu	Dan elfennau'r cymhwysedd							
S	Goruchwylwyd	Arfer dan oruchwyliaeth i ddangos dealltwriaeth Angen rhagor o ymarfer. Yn dangos gallu Yn hyfedr							
P	Hyfedr	Yn gymwys o ran elfennau gwybodaeth a sgiliau'r cymhwysedd.							

Sylwadau/Cofnod Cynnydd ar gyfer rhoi micro-enemâu a thawddgyffuriau

	DYDDIAD	SYLWADAU	LLOFNOD (y gofalwr a'r Nyrs Gofrestredig)
Ceir asesu A ac S gyda'i gilydd i ddarganfod cymhwysedd			
P		Yn gyson hyfedr ym mhob maes Llofnodwch y cofnod meistr nawr	